# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Cyfetholedig** |
| | Mr. J. Cotterell (Cadeirydd)<br>Mrs Pamela Moore (Aelod Annibynnol)<br>Yr Athro Robin Grove-White (Aelod Annibynnol)<br>Raymond Evans (Cynghorydd Tref/Cymuned) |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Ms Sue Morris, Mr Robert Hugh Gray Morris, y Cynghorydd J. Arwel Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones. |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Safonau gan roi croeso arbennig i'r Comisiynydd Gareth Jones.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2011 fel rhai cywir.

Yn codi o'r cofnodion –

Dywedodd y Swyddog Monitro bod y rhan fwyaf o'r materion a oedd yn codi o'r cofnodion yn cael sylw fel eitem ar wahân ar y rhaglen ar ffurf adroddiad cau ar waith a gwblhawyd eisoes; fodd bynnag, nid oedd yr eitem honno yn cyfeirio at y sefyllfa mewn perthynas â Pholisi SCT y Cyngor. Cadarnhaodd bod y polisi wedi ei weithredu a bod pob aelod bellach wedi cydymffurfio â'r cais i gyflwyno cais am wiriad SCT uwch sy'n golygu bod y Cyngor yn awr yn cydymffurfio gyda'i bolisi ei hun mewn perthynas ag Aelodau.

### 3 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor er gwybodaeth, fatrics ynghylch cwynion ac ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn fel y cafodd ei ddiwygio ar 2 Medi 2011. Cynghorodd y Swyddog Monitro'r aelodau y dylai'r Pwyllgor benderfynu'n ffurfiol i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod os bydd aelodau angen cyngor cyfreithiol ar y materion hyn. Gwnaeth y Cynghorydd Ieuan Williams gynnig i'r perwyl ac fe gafodd ei eilio gan Mrs Pamela Moore. **Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro.**

Cafwyd amlinelliad gan y Swyddog Monitro o'r cynnydd a wnaed o ran ymchwilio i bob un o'r materion a'r mewnbwn y byddai disgwyl efallai i'r Pwyllgor Safonau ei gael mewn perthynas â'r ymchwiliadau. Nododd yr aelodau y wybodaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro.

**Penderfynwyd nodi'r matrics cwynion fel y cafodd ei gyflwyno.**

## 4 ADRODD YN ÔL A RHOI GWYBODAETH AR GANLYNIADAU MATERION AR Y RHAGLEN WAITH A'R COFNODION

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro yn rhoi gwybodaeth a chanlyniadau materion mewn perthynas â Rhaglen Waith a chofnodion y Pwyllgor Safonau.

Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddog Monitro ynghylch y materion perthnasol fel a ganlyn –

### 4.1 Rhaglen Waith am y cyfnod 2010/11 a oedd ynghlwm fel Atodiad A1 i'r adroddiad

- Mewn perthynas â'r adroddiad/protocol ar gyfer delio gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio gan aelodau neu swyddogion, penderfynodd y Bwrdd Comisiynwyr, yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill, 2011 ar ôl rhoi sylw i'r Adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Gynllunio, y dylid argymell i'r Cyngor Sir bod newidiadau yn cael eu gwneud i'r Cyfansoddiad. Wedi hynny, penderfynodd y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12 Mai, y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Comisiynwyr. Ar ôl rhoi rhagor o sylw i'r mater, penderfynodd y Bwrdd Comisiynwyr argymell bod y Gweinidog yn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo'r newidiadau fel cynllun peilot 12 mis. Yn ei raglen waith ddiwethaf, nododd y Pwyllgor hwn y byddai'n adolygu effeithiolrwydd y newidiadau ar ôl y cyfnod prawf. Gofynnwyd i'r Pwyllgor a oedd yn dymuno llunio penderfyniad bod swyddogion yn adrodd yn ôl ar y mater hwn fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun peilot mewn 12 mis.

  **Penderfynwyd bod Swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau ynghylch effeithiolrwydd y cynllun peilot.**

- Mewn perthynas â rôl y Pwyllgor hwn fel corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas â'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y strwythurau gwleidyddol/sgriwtini, roedd y darn o waith a wnaed yn y cyswllt hwn bellach wedi dod yn Fesur Llywodraeth Leol (2011) a ddaw i rym ym mis Mai 2012. Awgrymir bod y Pwyllgor yn cael cyflwyniad ar ofynion y mesur newydd a fydd yn dangos sut y mae'r gwaith y mae wedi ei wneud fel Pwyllgor Safonau wedi ei fwydo i mewn i'r mesur, a hefyd pa newidiadau a ddaw yn sgil y mesur o ran strwythurau gwleidyddol/democrataidd y Cyngor.

  **Penderfynwyd gwneud trefniadau i'r Pwyllgor Safonau gael cyflwyniad ynghylch gofynion y Mesur Llywodraeth Leol newydd (2011).**

- Mewn perthynas â'r adolygiad o Bolisi Gosod Tai'r Cyngor a rôl aelodau etholedig ynddo, mae'r gwaith wedi ei gwblhau er bod elfen o anfodlonrwydd yn parhau ymysg rhai aelodau etholedig ynglŷn â'r mater hwn. Mae'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi sicrwydd ei fod yn fodlon gyda'r polisi ac nad yw'n dymuno ei weld yn cael ei adolygu. Anfonir llythyr eglurhaol pellach yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor at bob aelod gyda golwg ar ddod â'r mater hwn i ben cyn ethol Cyngor newydd ym Mai 2012. Yr awgrym yw bod Swyddogion Tai yn dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Safonau ynghylch sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â gosod tai. Mewn ymateb i gais am eglurhad ar y mater, yn arbennig oherwydd bod aelodau yn parhau i fod yn anesmwyth ynghylch y mater hwn, esboniodd y Swyddog Monitro natur anesmwythyd yr aelodau ynghylch y Polisi Gosod tai. Ymhelaethodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes trwy ddweud, er nad oedd yn anghytuno gyda'r polisi fel y mae o ran gwneud i ffwrdd â rôl uniongyrchol Cynghorwyr yn y broses gosod tai, roedd yn ei chael hi'n anodd derbyn nad oes modd rhoi gwybod i'r aelod lleol, yn rhinwedd ei swydd, i bwy y mae'r tŷ cyngor wedi i osod yn ei etholaeth/hetholaeth. Awgrymodd y gellid gofyn efallai i'r Gwasanaeth Tai egluro i'r cyhoedd nad oes gan y Cynghorwyr, dan y Polisi newydd, fewnbwn uniongyrchol yn y broses gosod tai a bod eu rôl wedi gostwng yn sylweddol yn y cyswllt hwn. Awgrymodd y Cynghorydd Ieuan Williams, er eglurhad, mai'r hyn yr oedd ei angen oedd cyfathrebu gyda'r cyhoedd efallai trwy'r Pecyn Gwybodaeth am y Broses Gosod Tai, i'w haddysgu am rôl yr aelod etholedig ac yn arbennig i roi gwybod iddynt nad oes gan aelodau etholedig unrhyw fewnbwn bellach i'r broses gosod tai ac eithrio

rôl gynrychioliadol ar ôl cael yr hawl honno wedi i'r unigolyn gwblhau'r ffurflen briodol ac i sicrhau bod y pwyntiau yn gywir. Awgrymodd y Swyddog Monitro y gellid drafftio cyfathrebiad i'r perwyl hwnnw a dod ag ef yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w ystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiad gan y Swyddogion Tai mewn perthynas â sefyllfa'r Cyngor o ran Gosod Tai.**
- **Bod swyddogion yn drafftio er sylw'r Pwyllgor, ddatganiad i'r cyhoedd i egluro rôl yr aelod etholedig mewn perthynas â'r broses Gosod Tai gan ganolbwyntio'n benodol ar y ffaith nad oes gan Gynghorwyr bellach fewnbwn i'r broses gosod tai ei hun.**

- Mewn perthynas â chyhoeddi ffurflenni Datgan Diddordeb yr Aelodau (Cofrestr Sefydlog yn unig) ar wefan y Cyngor a hyrwyddo'r cyfleuster hwn, mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gwblhau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gwneud newidiadau i'r ffurflen Datgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd a'r ffurflen Datgan Rhoddion a Lletygarwch. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd yn dymuno cael adroddiad ynghylch estyn y wybodaeth yn y cofrestrau ar-lein ac ystyried gofyn i'r Gwasanaeth TGCh rhoi sylw i'r mater ynghylch a oes modd rhoi ffurflenni Datgan Rhoddion a Lletygarwch a ffurflenni Datgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd ar-lein, gan wneud y ffurflenni yn rhai rhyngweithiol hefyd fel bod modd eu cwblhau'n electronig. Roedd yr Aelodau yn cytuno y dylai'r Gwasanaeth TGCh rhoi sylw i'r posibilrwydd o estyn rheolaeth ryngweithiol a chyhoeddi ar-lein mewn perthynas â'r cofrestrau.

  **Penderfynwyd gofyn i'r Gwasanaeth TGCh roi sylw i estyn y trefniadau ar gyfer cyhoeddi ffurflenni Datgan Diddordeb Aelodau ar-lein i gynnwys y ffurflenni Datgan Rhoddion a Lletygarwch ynghyd â ffurflenni Datgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd ac i sicrhau y gellir diweddaru'r ffurflenni rhoddion a lletygarwch a'r Gofrestr Sefydlog yn rhyngweithiol.**

- Mewn perthynas â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai ar waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried sut oedd yn dymuno bwrw ymlaen o gofio bod cyfnod y Cadeirydd cyfredol yn ei swydd fel Cadeirydd ac aelod o'r Pwyllgor yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Awgrymwyd y gallai Mr. Jeff Cotterell, fel Cadeirydd cyfredol y Pwyllgor, roi datganiad hanner blwyddyn i'r cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2011 ar waith y Pwyllgor o Fedi i Ragfyr ac, ar ôl etholiad, gallai'r Cadeirydd newydd wneud datganiad i'r cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mai 2012 ar waith y Pwyllgor yn ystod ail hanner y flwyddyn o fis Ionawr i fis Mai. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r awgrym hwn. Awgrymodd yr Athro Robin Grove White hefyd y byddai'n briodol hefyd efallai, o gofio y bydd aelodaeth gyfredol y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ym mis Rhagfyr, i'r adroddiad adlewyrchu profiad torfol y Pwyllgor dros y 3 blynedd diwethaf. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau y byddent yn hoffi eu gweld efallai yn yr adroddiad trwy e-bost fel bod modd dod i gonsensws.

  Sylwodd y Comisiynydd Gareth Jones fod gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn fater pwysig i'r Comisiynwyr a'i fod yn un o'r themâu y maent yn rhoi sylw iddynt. Bydd y Comisiynydd yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog ar yr un pryd ag y cyflwynir adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Bydd cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau yn arwyddocaol yn yr ystyr y bydd yn cael dylanwad ar y math o adroddiad terfynol y bydd y Comisiynwyr yn ei ddarparu. Mae'n gyfle hefyd i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar bapur gan roi i'r Gweinidog ddimensiwn ychwanegol ynghylch gwaith y Cyngor wrth iddo lunio ei gasgliadau. O'r herwydd, mae gwaith y Pwyllgor Safonau yn bwysig nid yn unig i'r Comisiynwyr ond hefyd i enw da'r Cyngor.

**Penderfynwyd bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn yn cael ei gyflwyno mewn dau ddatganiad hanner blwyddyn, un gan y Cadeirydd cyfredol a'r llall gan y Cadeirydd newydd, ac y dylai aelodau sy'n dymuno cael mewnbwn i'r adroddiad gyflwyno eu sylwadau trwy e-bost fel bod modd dod i gonsensws.**

**4.2** Ynghlwm yn Atodiad 2 oedd gohebiaeth ddyddiedig 1 Gorffennaf 2011 a anfonwyd at Brif Weithredwr Cymdeithas Lywodraeth Lleol Cymru yn unol â chais y Cyngor Sir ac a oedd yn gofyn i'r Gymdeithas lunio ac argymell Polisi Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Oherwydd na chafwyd ateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol hyd yma, anfonir llythyr atgoffa. Efallai bod cyfle i roi sylw i'r mater hwn trwy'r rhwydwaith swyddogion monitro, a rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Safonau os oes unrhyw ddatblygiadau o bwys o'r ffynhonnell honno.

**4.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2011**

- Ynghlwm yn Atodiadau A3 ac A4 oedd gohebiaeth i Olygydd yr Holyhead & Anglesey Mail ac i bob Cynghorydd dyddiedig 14 ac 15 Mehefin mewn perthynas â beirniadaeth yn y wasg ynghylch defnyddio Plas Tresygawen fel lle cyfarfod ar gyfer gwrandawiadau Panel Dyfarnu. Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Pwyllgor Safonau fod cywiriad i'r erthygl wreiddiol wedi ei argraffu yn rhifyn yr wythnos ddilynol o'r Holyhead & Anglesey Mail.
- Cylchredwyd er gwybodaeth i'r aelodau, Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol - sef copi o Bolisi a Chanllawiau Model Lywodraeth Cymru ar gyfer cwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd y Swyddog Monitro, er nad oes gan y ddogfen statws dogfen orfodol, fod y polisi yn cael ei argymell yn gryf fel canllaw. Mae'r Comisiynydd Mick Giannasi yn awyddus i swyddogion sefydlu Bwrdd Prosiect i gyflwyno'r newidiadau diwylliannol a strwythurol a amlinellir yn y polisi. Trefnwyd cyfarfod gyda'r Comisiynydd i drafod mandad y prosiect ac, ar yr amod ei fod yn cytuno, fe'i cyflwynir i Dîm Rheoli'r Penaethiaid Gwasanaeth i'w arwyddo gyda golwg ar sefydlu dogfen cynllun prosiect. Y nod yw cwblhau'r gwaith erbyn Mai 2012. Bydd y Cynllun yn edrych ar weithredu sylwedd y canllawiau a hefyd faterion mewn perthynas â chyfeirio ar gyfer aelodau a mynediad i swyddogaethau swyddfa gefn.

**4.4 Materion Eraill**

- Mewn perthynas â'r indemniadau, penderfynodd y Cyngor Sir ar 9 Mehefin 2011, gymeradwyo adroddiad mewn perthynas â pholisi a gweithdrefn ar gyfer delio gyda cheisiadau am indemniadau, a sefydlwyd Is-Bwyllgor i'r perwyl. Atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor Safonau bod raid i aelodau, mewn amgylchiadau lle maent yn cael cosb sy'n llymach na cherydd, ad-dalu unrhyw indemniad a roddwyd iddynt. Mewn achosion lle mae aelod wedi ei geryddu/cheryddu o ganlyniad i dorri'r Cod Ymddygiad, neu lle dyfarnwyd yn ei erbyn/herbyn ond lle ystyrir nad oes angen rhoi cosb, mae gan y Pwyllgor Safonau rôl i benderfynu a ddylid ad-dalu i'r Cyngor yr arian a wariwyd gan y Cyngor ac, os bydd raid, i ba raddau. Gofynnodd Aelod a oedd darpariaeth ar gyfer gosod amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau am indemniad ac os nad oes, a ddylid cyflwyno amserlen o'r fath er mwyn hwyluso'r broses. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n mynd â'r awgrym yn ôl.
- Mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, roedd gohebiaeth ynghlwm yn Atodiad A5 i'r adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2011 ac a anfonwyd at holl Glarcod Cynghorau Tref a Chymuned yn amgáu ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir a ddiwygiwyd i'w defnyddio gan Gynghorwyr Tref a Chymuned. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried y manteision i'r Pwyllgor yn sgil ymwneud yn agosach gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac a oeddynt yn dymuno cymryd arnynt eu hunain rôl sicrwydd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned. Dywedwyd bod yr arferion yn hyn o beth yn amrywio'n fawr trwy Gymru, ac er bod gan y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd rôl gyffredinol mewn perthynas â hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned, nid yw hyd yma wedi ymgymryd â rôl fwy trwyadl mewn perthynas â sicrwydd. Awgrymwyd y dylid rhoi cyfarwyddiadau i'r Swyddog Monitro gynnwys eitem ar raglen Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i sefydlu beth yw'r arferion mewn Cynghorau eraill yn y cyswllt hwn a pha rôl sicrwydd cyffyrddiad ysgafn y gallai'r Pwyllgor Safonau ei gweithredu mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned, e.e. archwilio'r cofrestrau ar hap ac ati.

**Penderfynwyd cyfarwyddo’r Swyddog Monitro i gynnwys eitem ar raglen cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i sefydlu beth yw’r arferion mewn Cynghorau eraill o ran y Pwyllgor Safonau yn ymgymryd â rôl sicrwydd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned.**

## 5 RECRIWTIO’R PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD

Cyflwynwyd i’r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad gan y Cyfreithiwr i’r Swyddog Monitro yn cynnwys cyfres o ddogfennau recriwtio mewn perthynas â phenodi Pwyllgor Safonau newydd.  Gofynnwyd i’r Pwyllgor hefyd anfon ymlaen unrhyw sylwadau / argymhellion ychwanegol ar y dogfennau i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau yn arbennig o bersbectif aelodau annibynnol y Pwyllgor.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Panel bellach wedi ei ddewis a threfnwyd iddo gyfarfod ar 20 Medi i ystyried a chymeradwyo’r dogfennau recriwtio, y broses recriwtio a’r amserlen ar gyfer hysbysebu a thynnu rhestr fer.

Gwnaed sylwadau am y gwahaniaeth rhwng yr oedrannau a ddangosir yn y rhan Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar y ffurflen gais i fod yn aelod lleyg o’r Panel Dethol a oedd i’w gweld yn Atodiad 5, â’r oedrannau ar y rhan Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar y ffurflen gais i fod yn aelod lleyg o’r Pwyllgor Safonau fel y gwelir nhw yn Atodiad 7c.

Wrth ymateb i’r pwynt uchod ac wrth ddwyn sylw at newidiadau eraill a gynigir i’r dogfennau, adroddodd y Pwyllgor Monitro fel a ganlyn –

- Y bydd Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal newydd yn cael ei defnyddio a’i hanfon at ddarpar ymgeiswyr, sef ffurflen a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.
- Mae’r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol yn ymgynghori ar hyn o bryd ar amrediad o faterion sy’n cynnwys tâl i aelodau cyfetholedig, gan gynnwys y Pwyllgor Safonau.  Tynnir sylw at y posibilrwydd hwn yn y dogfennau i ymgeiswyr.
- Cynnwys gwybodaeth ynghylch aelodau cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio yn mabwysiadu Polisi SCT cyfredol y Cyngor.
- Unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i benderfyniadau a gymerir, e.e. y newidiadau yng Nghyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.
- Cynnwys cyfeiriad at gyfarfodydd ffurfiol, caniatadau arbennig a chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Tynnu cyfeiriadau at gyfarfodydd anffurfiol.
- Cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch hyfforddiant.
- Rhagor o fân-newidiadau ar ffurf eglurhad ar ganiatâd arbennig ac ati.

Argymhellodd aelodau’r Pwyllgor Safonau yr isod fel newidiadau ychwanegol i’r dogfennau recriwtio -

- Yr angen i egluro’r gwahaniaeth rhwng sesiynau cyhoeddus a sesiynau preifat y Pwyllgor Safonau a’r hyn sy’n digwydd ym mhob sesiwn (Gwybodaeth gefndirol ar gyfer ymgeiswyr yn Atodiad 7b).
- Tynnu’r gair “spouse” yn Rhan 2 Atodiad 5 i adlewyrchu’r geiriad yn y Côd Ymddygiad.
- Defnyddio’r gair “rely” yn lle’r gair “receive” yn Tudalen 4 yn Atodiad 7c.

**Penderfynwyd derbyn y newidiadau arfaethedig i’r dogfennau recriwtio fel yr adroddwyd nhw gan y Swyddog Monitro ac anfon at y Panel Dethol yr argymhelliad ychwanegol ar gyfer newidiadau a wnaed gan y Pwyllgor fel y cânt eu nodi uchod.**

## 6 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GOFRESTRAU DIDDORDEB AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG

Cylchredwyd y dogfennau isod ynghyd â gohebiaeth atodol i Aelodau’r Pwyllgor cyn y cyfarfod –

- Copïau o ffurflenni datganiadau yn y Gofrestr Sefydlog gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.
- Copïau o ffurflenni datganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig a chopi o’r Gofrestr.
- Copïau o ffurflenni datganiadau Rhoddion a Lletygarwch a wnaed gan Aelodau.

- Copïau o benodiadau Aelodau i Gyrff Allanol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gynnal ei adolygiad blynyddol o'r ffurflenni Datgan Diddordeb gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

Awgrymodd y Swyddog Monitro, er mwyn hwyluso'r dasg uchod ac i sicrhau bydd y mater yn cael ei drin yn deg, y dylid ystyried gohirio'r mater a bod pob un o Aelodau Annibynnol y Pwyllgor yn cael bwndel o 8 ffurflenni datgan diddordeb unigol (mewn perthynas â'r tair cofrestr) i'w hadolygu yn wyneb y dogfennau atodol a chanlyniad adolygiadau blaenorol. Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor trwy lythyr yn ynghylch pa Gynghorwyr y byddai gofyn iddynt ei hadolygu. Gwneir y dyraniad yn ôl trefn y wyddor a rhoddir dyddiad cau i'r Aelodau Annibynnol ar gyfer cwblhau'r dasg. Dywedodd y Swyddog Monitro ymhellach efallai y byddai'r rheini sy'n ymgymryd â'r dasg hon yn dymuno ystyried effeithiolrwydd y ffurflenni datgan diddordeb newydd mewn cyfarfodydd; unrhyw absenoldebau o ddatganiadau neu fethiant i ddiweddaru ac ati. Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am unrhyw bryderon ac anfon sylwadau at y Cadeirydd. Llunnir drafft o ymateb y Pwyllgor wedi hynny. Roedd yr Aelodau yn cytuno gyda'r cynnig hwn fel ffordd ymarferol o ymgymryd â'r dasg a gofynnwyd am i'r llythyr gan y Swyddog Monitro nodi'r meini prawf y bydd y ffurflenni yn cael eu hadolygu yn eu herbyn.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr eitem hon hyd nes yr archwiliwyd y dogfennau perthnasol yn unol â'r drefn a gynghorwyd gan y Swyddog Monitro uchod.**

## 7 PANEL CANIATÂD ARBENNIG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro er sylw a chymeradwyaeth y Pwyllgor yn cynnwys protocol arfaethedig ar gyfer delio gyda cheisiadau am ganiatâd arbennig.

Roedd y Protocol yn cynnig, er mwyn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i geisiadau am ganiatâd arbennig y mae angen eu gwneud ar fyrder o bryd i'w gilydd, fod y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried yn y dyfodol gan Banel o dri Aelod o'r Pwyllgor Safonau i gynnwys dau Aelod Annibynnol ac un Cynghorydd Sir. Dewisir Cadeirydd y Panel o blith yr Aelodau Annibynnol yn unol â'r Rheoliadau Statudol. Pan drefnir Panel Caniatâd Arbennig, bydd y Swyddog Pwyllgor yn cadw rhestr o Aelodau Pwyllgor Safonau sydd wedi cymryd rhan mewn Panelau o'r fath a bydd yn penodi Aelodau ar sail ad hoc, gyda'u caniatâd, ond yn amodol bob amser ar argaeledd a rota teg. Ar adegau pan fo gan yr holl Gynghorwyr ddiddordeb sy'n gwrthdaro, dygwyd sylw'r Aelodau at y ffaith y bydd y Panel, ar y fath achlysuron, yn cynnwys tri Aelod Annibynnol i'w dewis ar sail rota lle mae hynny'n bosib.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor ei bod yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd arbennig ar gyfer pob un o'r 40 Aelod mewn perthynas â'r Is-Bwyllgor Indemniadau. Dan y polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor, gall Cynghorwyr sy'n dymuno gwneud cais am indemniad ymddangos yn bersonol gerbron yr Is-Bwyllgor; gallant roi cyfarwyddiadau i Gyfreithiwr/Cwnselydd gyflwyno'r cais ar eu rhan neu fe allant gyflwyno'r cais yn ysgrifenedig yn unig. Nid yw ffioedd Cyfreithwyr yn dod o dan y ddarpariaeth hon oherwydd ystyrir eu bod yn codi o waith cyn indemniad, ac felly gall y broses fod yn ddrud i Aelodau Etholedig. Ystyrir y dylai bod ganddynt hawl i fynychu'n bersonol a chyflwyno eu hachos. Dan y Côd Ymddygiad, mae hyn yn cyfateb i ddiddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu gan olygu bod angen gwneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig i ymddangos gerbron yr Is-Bwyllgor. Er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai posibilrwydd o gyfres o geisiadau am ganiatâd arbennig i'r Pwyllgor Safonau pob tro y gwneir cais am indemniad, esboniodd y Swyddog Monitro ei bod yn awgrymu, gyda chytundeb yr Arweinwyr Grwpiau, ffordd ymarferol o ddelio gyda'r mater lle byddai'n cyflwyno cais ar eu cyfarwyddiadau i bob un o'r 40 Aelod Etholedig fel eu bod oll wedi eu diogelu'n awtomatig. Byddai'n rhaid cynnal cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arennig yn y dyfodol agos i'r pwrpas hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu'r Protocol ar gyfer sefydlu panelau i ddelio gyda cheisiadau am ganiatâd arbennig fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo dull y Swyddog Monitro o ddelio â cheisiadau posib gan aelodau am ganiatâd arbennig mewn perthynas â'r Is-Bwyllgor Indemniadau gyda'i gilydd.**

## 8 Y CYNGHORYDD P. S. ROGERS

Yn unol â gofynion y Panel Dyfarnu mewn perthynas â'r holl faterion y cyfeiriwyd atynt, cyflwynwyd adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dyddiedig 25 Hydref 2010 mewn perthynas ag ymchwiliad i honiad yn erbyn y Cynghorydd P. S. Rogers ynghyd â phenderfyniad y Panel Dyfarnu ar 28.8.2011.

**Penderfynwyd nodi'r dogfennau fel y cawsant eu cyflwyno.**

## 9 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU : COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MEHEFIN 2011 A'R RHAGLEN AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Yn absenoldeb Ms Sue Morris, fe benderfynwyd gohirio rhoi sylw i'r mater hwn hyd nes y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

## 10 CYNHADLEDD SAFONAU – LLANDRINDOD AR 5 HYDREF 2011

Cyflwynwyd manylion am y Gynhadledd Safonau a gynhelir ar 5 Hydref. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried enwebu dau o'i aelodau i fynychu'r gynhadledd, sef un cynrychiolydd Cyngor Sir ac un cynrychiolydd Aelod Annibynnol. Nododd yr Aelodau Annibynnol a oedd yn bresennol bod ganddynt ymrwymiadau eisoes ar ddyddiad y gynhadledd.

**Penderfynwyd –**

- **Enwebu'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes i fynychu'r gynhadledd fel cynrychiolydd y Cyngor Sir.**
- **Gofyn i'r Swyddog Monitro gysylltu gyda Mr Hugh Gray Morris i sefydlu a fydd ar gael i fynychu'r gynhadledd fel cynrychiolydd yr Aelodau Annibynnol.**

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn crynhoi'r materion hynny a oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn o Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar berfformiad ar gyfer 2010/11. Argymhellion yr adroddiad oedd ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ac o Ebrill 2011 bod data ynghylch amseroedd ymateb gan wasanaethau yn cael eu casglu fel y gellir darparu'r wybodaeth hon ar gyfer adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Dywedodd y Swyddog Monitro mai'r prif gasgliadau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn o Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon oedd bod gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion am wasanaethau a gyflwynwyd i'r Swyddfa Ombwdsmon yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2010/11 a gostyngiad hefyd yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod 2010/11 o gymharu â 2009/10. Fodd bynnag, er bod yr adroddiad cryno yn dangos bod CSYM yn gwella yn erbyn ei berfformiad hanesyddol ei hun, roedd Graffiau D ac E yn Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos bod ei berfformiad yn cymharu'n anffafriol gyda'r cyfartaledd trwy Gymru. Mae'r data hwn yn dangos, yn dilyn addasiadau ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth, fod lefel y cwynion yn erbyn CSYM yn ddwywaith mwy na'r cyfartaledd a bod yr Ombwdsmon, yn achos Ynys Môn, wedi ymchwilio i fwy na dwywaith lefel y cwynion ar gyfartaledd yn 2009/10 a thair gwaith mwy na'r cyfartaledd yn 2010/11. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch arwyddocâd y lefel uwch o gwynion yn erbyn CSYM, ymatebodd y Swyddog Monitro trwy ddweud bod hyn, fe ymddengys, yn arwydd nad yw cwynion yn cael sylw'n ddigon prydlon yn y pwynt gwasanaeth a bod arafwch y system, fe ymddengys, yn arwain at gwynion i'r Ombwdsmon. Cyfeiriodd at y Weithdrefn Gwynion newydd a'r hyn yr oedd yn ceisio ei wneud o ran darparu proses symlach a mwy ymatebol ar gyfer rheoli a rhoi sylw i gwynion lle mae'r pwyslais ar brydlondeb a dysgu o gamgymeriadau a wnaed.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys a'r argymhellion ynddo.**

## 12 EITEMAU RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR AR 14 RHAGFYR 2011

Cyflwynwyd rhaglen waith gyfredol y Pwyllgor er gwybodaeth i Aelodau.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y materion i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod chwarterol nesaf (yn ogystal â'r rheini a drafodwyd yn y cyfarfod hwn) ar 14 Rhagfyr fel a ganlyn –

- Diweddariad ar faterion sy'n codi o'r Cynllun Datblygu Aelodau ac adroddiad gan y Grŵp Datblygu Aelodau.
- Adrodd ar ganlyniad yr adolygiad o'r Gofrestr o Diddordebau Aelodau a'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch.
- Adolygu Polisi'r Cyngor ar Roddion a Lletygarwch a rhoi atborth ynghylch a yw'r ffurflen newydd a fabwysiadwyd wedi cael derbyniad da. Roedd Ffurflen B2 newydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
- Adolygu'r Protocol ar gyfer y cydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion gan gynnwys canlyniad y Cynllun Peilot ar gyfer y Protocol hunanreoleiddio.
- Diweddariad ar y Weithdrefn Gwynion.
- Diweddariad ar recriwtio i'r Pwyllgor Safonau newydd.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno.**

Cyn cau'r cyfarfod, dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau fod Is-Gadeirydd y Pwyllgor, Ms Sue Morris mewn iechyd gwael ar hyn o bryd yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty. Roedd yr Aelodau yn cytuno y dylai'r Swyddog Monitro ysgrifennu at Ms Morris gan ddymuno iddi gofion gorau'r Pwyllgor am adferiad buan.

**Mr. Jeff Cotterell**
**Cadeirydd**